



**FARMING**  
connect  
cyswllt  
**FFERMIO**

08456 000 813

## Gwahanu slyri

### Pam ddylwn i feddwl am hyn?

Os ydych chi'n ffermio mewn sector – llaeth, cig eidion neu foch - lle mae'r da byw yn cynhyrchu slyri, mae'n debygol eich bod yn gorfod ei storio a'i wasgaru ar y tir er mwyn tyfu cynydau (oni bai ei fod yn cael ei roi mewn biodreulydd anaerobig). Ydych chi'n storio a gwasgaru slyri mewn ffordd sydd yn ateb gofynion rheoleiddio? Ydych chi'n gwneud y defnydd gorau o'r holl ddefnydd organig a maethynnau gwerthfawr sydd yn y slyri?



Ym mis Tachwedd 2018 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai [rheoliadau newydd i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol](#) yn dod i rym o 1 Ionawr 2020. Mae'r rhain yn cynnwys camau i warchod dŵr rhag llygredd sydd yn berthynol i ble, pryd a sut caiff slyri ei wasgaru, ynghyd â safonau storio tail.

### Sut mae Gwahanu Slyri yn rhan o hyn?

Mae gwahanu'r solidau o'r hylif yn golygu ei bod yn haws rheoli'r slyri oherwydd mae modd pentyrru, storio a chludo'r rhan solet, ac mae llai o hylif wedyn i'w storio'n slyri. Y solidau sydd yn cynnwys y rhan fwyaf o'r maethynnau gwerthfawr sydd eu hangen ar gnydau; felly, oherwydd y gwahanu, mae llygredd yn llai tebygol wrth storio a gwasgaru'r hylif. Mae modd cymryd camau fel bod angen llai o le i storio slyri, e.e. ierdydd dan do, storfeydd slyri dan orchudd a gwahanu dŵr glân a dŵr budr. Mae hyn i gyd yn golygu storio llai o slyri a lleihau'r perygl o lygredd a all ddigwydd oherwydd allyriadau amonia. Mae gwahanu slyri yn gam ychwanegol a all fod yn fanteisiol o ran rheoli maethynnau ar y fferm a'r effaith amgylcheddol.




### Technoleg Gwahanu Slyri

Er mai dulliau mecanyddol a ddefnyddir yn bennaf, mae dulliau newydd yn dod i'r amlwg. Mae'r dulliau mecanyddol yn defnyddio **gweisg** (rholeri, beltiau, sgriwiau neu hidlwyr) sydd yn tynnu'r dŵr trwy wasgedd mecanyddol; neu **sgriniau** (llonydd, ar oleddf, yn troi neu symudol) sydd yn tynnu'r dŵr trwy ddisgyrchiant, gwasgedd neu ddirgryniad. Bydd y dulliau hyn yn tynnu allan dros 75% o'r holl solidau, ac maen nhw'n effeithlon a chost effeithiol. Fodd bynnag, mae dulliau newydd yn gwahanu hyd at 90% o'r holl solidau ac maen nhw'n well o ran rheoli cyfansoddiad y cyfansoddion sy'n cael eu gwahanu. Trwy ddefnyddio microhidlad neu electrolysis, mae modd cipio nitrogen a ffosfforws hyd yn oed - ac mae'r hylif sy'n cael ei wahanu yn agos at fod yn ddŵr pur.

Mae prosiect newydd diddorol yng [Ngelli Aur, Coleg Sir Gâr](#) yn Sir Gaerfyrddin yn defnyddio system sydd yn tynnu dŵr o slyri ac yn trin y dŵr hwnnw hyd nes ei fod yn ddigon glân i'w aildefnyddio neu ei ollwng yn ddiogel. Hefyd, bydd y system yn defnyddio maethynnau o'r slyri i gynhyrchu gwrtaith o ansawdd da. Y nod yw lleihau'r perygl o lygredd aer a dŵr ac, ar yr un pryd, cael y gwerth gorau o'r maethynnau a ddaw o'r ailgylchu. Bydd y broses ddatblygu yn golygu storio llai o dipyn o slyri ar ffermydd, ynghyd â lleihau'r gost o'i drafod. Gallai tynnu maethynnau o achlesau yn effeithlon olygu gwario llai ar brynu gwrteithiau ac achosi llai o ddifrod i'r amgylchedd. Mae'r prosiect yn anelu at gynllunio, datblygu a dilysu systemau sydd yn ariannol hyfyw ac a fydd ar gael yn fasnachol i'w defnyddio ar ffermydd.

Mwy ar gwefan [ProsiectSlyri Project](#), [Facebook](#) a [Twitter](#) neu [prosiectslyriproject@colegsirgar.ac.uk](mailto:prosiectslyriproject@colegsirgar.ac.uk)



### Adnoddau eraill:

Meddalwedd am ddim wedi ei datblygu gan **ADAS**; [MANNER NPK](#) sydd yn gwneud cyfrifiadau ynghylch rheoli maethynnau a [AHDB Nutrient Management Guide \(RB209\)](#) sydd yn argymhell gwrteithiau ar gyfer yr holl gnydau allweddol.

### Gwybodaeth bellach:

**Cyswllt Ffermio:** Erthygl Dechnegol gan Dr Steve Chapman, IBERS

[Use of membrane filtration technology to reduce agricultural pollution](#)

**Cyswllt Ffermio:** Erthygl Dechnegol gan Dr Will Stiles, IBERS

[Rheoli slyri yn well: defnyddio technoleg gwahanu](#)

**Cyswllt Ffermio:** [Technoleg newydd ar fferm yng Nghymru yn echdynnu 90% o ddŵr o slyri](#)

**Erthygl Farmers Weekly** [“New slurry purification system starts operating at Welsh college”](#)

[The potential contribution of separation technologies to the management of livestock manure](#)

[Solid-Liquid Separation of Animal Slurry in Theory and Practice](#)

[Solid-liquid separation of livestock slurry: efficiency and cost](#)

**Cyswllt Ffermio:** astudiaethau achos [Dŵr Glân a Budr](#)

